



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymateb Llywodraeth Cymru i ddogfen ymgynghori'r Adran Drafnidiaeth a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017 - 'The Severn Crossings Reducing toll prices and other issues'

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu rhoi ymateb mor fanwl ag y byddai wedi gobeithio'i gyflwyno gan nad oedd ganddi wybodaeth ddigon manwl.

Ar ôl lansio'r ymgynghoriad, gofynnwn ni i'r Adran Drafnidiaeth am ystod o wybodaeth ariannol ac esboniad o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i baratoi'r modelau traffig sy'n sail i'r ymgynghoriad.

Cawsom ar ddeall bod Gweinidog Gwladol yr Adran Drafnidiaeth wedi ymrwymo yn y drafodaeth yn Westminster Hall ar 31 Ionawr am Bontydd Hafren i ryddhau rhagor o wybodaeth am gostau a modelau. Nid oes gwybodaeth o'r fath wedi dod i'n llaw hyd yma.

Mae hyn yn destun siom aruthrol, yn enwedig o gofio bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn pwysleisio pwysigrwydd rhannu tystiolaeth i'n helpu â'n penderfyniadau.

Rydym wedi ymateb i'r ymgynghoriad felly ar lefel polisi strategol gan ategu'r datganiadau rydym eisoes wedi'u gwneud ynghylch dyfodol y pontydd. Rydym yn cadw'r hawl i ymateb yn fanylach pan ddaw gwybodaeth fanylach i law a phwyswn ar Lywodraeth y DU i roi ystyriaeth i'r ymateb pellach hwnnw cyn penderfynu ar drefniadau'r croesfannau pan ddychwelant i ddwylo cyhoeddus.

Mae Llywodraeth Cymru'n galw ar Lywodraeth y DU i gael gwared ar y tollau pan ddaw Croesfannau Hafren yn ôl i feddiant y cyhoedd. O wneud, rydym yn ymwybodol bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi pleidleisio'n unfrydol o blaid cael gwared ar y tollau pan ddaw'r croesfannau yn ôl i feddiant y cyhoedd.

Mae'r tollau'n dreth annerbyniol ac annheg ar economi, pobl a chymunedau De Cymru ac yn rhwystr arwyddocaol i ddatblygu'n perthynas â De Orllewin Lloegr i ddod â buddiannau i'r ddwy ochr.

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan ei bod yn cydnabod nerth y ddadl o blaid masnach ddirwystr a'i bod, ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, am greu trefniadau masnachu newydd â'r undeb fyddai'n adlewyrchu'r ddadl gref iawn honno. Byddai'n anghyson ohoni felly pe bai'n gosod rhwystrau diangen ar y cysylltiadau masnachol ac economaidd eraill rhwng Cymru a Lloegr.

Nid oes unrhyw sail i'r ddadl bod angen y tollau i dalu'r 'ddyled' hanesyddol. Mae hwn yn wariant hanesyddol ac mae incwm Llywodraeth y DU o'r TAW ar y tollau dros oes y consesiwn wedi hen dalu amdani. Nid ydym wedi clywed esboniad digonol o'r rhesymau pam y dylid diddymu'r ddyled am Bont Humber ond nid y ddyled am Groesfannau Hafren. Mae'r argraff wedi'i chreu bod Cymru'n cael ei thrin yn llai ffafriol na rhannau eraill y Deyrnas Unedig.

Yr ystyriaeth sydd ar ôl yw cost cynnal y croesfannau.

Rydym yn nodi mai polisi Llywodraeth y DU yw defnyddio'r tollau i dalu am gostau cynnal pontydd dros aberoedd ond nid ydym yn cytuno â rhesymeg y safbwynt hwnnw.

Nid oes gwybodaeth ynghylch cost cadw'r croesfannau mewn cyflwr da wedi'i rhyddhau. Fodd bynnag, mae yna wybodaeth am gost gweithredu'r tollau gyda chhyllid y pontydd, sef £13.6 miliwn y flwyddyn yn 2014. O ragdybio bod tua hanner y swm hwnnw'n gostau cynnal a chadw, mae £6-7 miliwn y flwyddyn yn ein barn ni yn swm cymharol fach. O ystyried bod Llywodraeth y DU yn credu na ddylai'r Pontydd gael eu trosglwyddo'n eiddo i Lywodraeth Cymru, dylid ystyried y costau cynnal cymharol isel yng nghyd-destun cyllideb weithredol rhwydwaith ffyrdd strategol Lloegr, oedd yn werth £1.072 biliwn yn 2015/16, Lywodraeth y DU ddylai felly eu hysgwyo. Nid yw'n rhesymol disgwyl i ddefnyddwyr dalu ddwywaith i bob pwrpas am yr hyn sydd ei angen i gynnal a chadw'r Croesfannau er mwyn talu am gost casglu'r tollau.

Barn Llywodraeth Cymru yw dylid cael gwared ar y tollau pan ddaw'r pontydd yn ôl i feddiant y cyhoedd. Heb ragfarnu'r farn honno, byddai'n ddiotal ohonom pe na baem yn cynnig pa drefniadau a ddylai fod yn eu lle pe bai Llywodraeth y DU'n penderfynu cadw'r tollau, er cryfed nerth y ddadl yn eu herbyn.

Pe bai Llywodraeth y DU yn mynnu cadw'r tollau, ni ddylent fod yn fwy na'r hyn sydd ei angen i gadw'r pontydd mewn cyflwr ffisegol dda. Rhaid i Lywodraeth y DU barchu ei hymrwymiad a pheidio â defnyddio'r refeniw i dalu am wariant arall.

Pe bai Llywodraeth y DU yn mynnu cadw'r tollau, ni ddylai fod rhwystrau ffisegol wrth deithio i Gymru. Maent yn faen tramgwydd mawr, llythrennol a diwylliannol, wrth geisio denu busnesau ac ymwelwyr i Gymru. Dylid codi tollau ar deithwyr y ddau gyfeiriad.

Dylid ystyried ar fyrder cyflwyno technoleg casglu awtomatig, a phe bai'n cael ei chyflwyno, Llywodraeth y DU ac nid refeniw'r tollau ddylai talu amdani. Fodd bynnag, bydd angen i Lywodraeth y DU ystyried yn ofalus a fyddai cost gosod a rhedeg technoleg awtomatig yn gymesur â lefel y refeniw a gynhyrchid gan y tollau, ac a fyddai'n fwy cymesur peidio â chodi tollau o gofio na ddylai rhwystrau ffisegol fod yn opsiwn.

Pe bai Llywodraeth y DU yn mynnu cadw tollau, dylai gyhoeddi adroddiad blynyddol manwl ar gostau rhedeg y pontydd a'r refeniw a gynhyrchir, hynny er mwyn bod yn agored a thryloyw.

Mae Llywodraeth Cymru'n hyderus y gwnaiff Llywodraeth y DU ystyried yr ymateb hwn yn ofalus, sydd hefyd yn adlewyrchu barn y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd yn disgwyl gweld trafodaethau'n cael eu cynnal rhwng y ddwy weinyddiaeth cyn bod penderfyniad yn cael ei wneud ar ddyfodol y ddau Groesfan pan ddychwelant i feddiant y cyhoedd.